

# Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.2 Datblygu strategaeth gwirfoddolwyr



Rydych yn ystyried dod â gwirfoddolwyr i'ch mudiad neu ffurfioli gwirfoddoli yn eich mudiad. Diben y daflen wybodaeth hon yw eich arwain drwy broses feddwl strwythuredig i'ch galluogi i lunio strategaeth wirfoddoli.

Ystyriwch y cwestiynau isod; cwrdd ag eraill a nodi'ch ymatebion. Gellir ysgrifennu'r rhain er mwyn llunio a) datganiadau, b) cynllun neu siartiau llif a c) llinell amser a fydd yn eich helpu i baratoi at wirfoddolwyr ac adolygu'ch cynnydd. Gyda'i gilydd bydd hyn yn ffurfio strategaeth wirfoddoli eich mudiad / prosiect. Gallech siarad â'r tîm Gwirfoddoli yn eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol i gael cymorth gyda hyn i gyd.

Cwestiynau i'w hystyried:

- Pam oes arnoch eisiau cynnwys gwirfoddolwyr / ffurfioli gwirfoddoli? Beth fydd hyn yn ei ychwanegu at eich mudiad?
- A ydych yn teimlo y gallwch gadw at y [cod ymarfer ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr?](#)
- Beth yw gallu'ch mudiad i gefnogi gwirfoddolwyr (o ran amser ac adnoddau)? Beth ydych yn amcangyfrif fydd cost cynnwys gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, hyfforddi, goruchwyllo ac ad-dalu treuliau? A ydych yn ystyried chwilio am gyllid i ddatblygu gwirfoddoli? Pwy yw'r unigolyn/unigolion penodedig sydd â'r gallu a'r hyder i hyfforddi, cefnogi a goruchwyllo gwirfoddolwyr?
- A yw staff yn deall y penderfyniad i gynnwys gwirfoddolwyr, ac yn cytuno ag ef? (Gweler [“Siarter ar gyfer cryfhau'r cysylltiadau rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr” – WCVA a TUC Cymru](#))
- A yw defnyddwyr y gwasanaeth a / neu'r gymuned rydych yn ei gwasanaethu'n deall rôl a swyddogaeth gwirfoddolwyr?
- A yw cyllidwyr yn ymwybodol ac yn gefnogol o gyfraniad gwirfoddolwyr sy'n 'ychwanegu gwerth' at weithgareddau a gwasanaethau'r mudiad?
- A oes angen i chi greu neu adolygu'ch polisi gwirfoddoli, polisiâu eraill a'ch gweithdrefnau, gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer gwirfoddolwyr?
- Pa hyfforddiant neu gymorth sydd ei angen i'r person/au dynodedig a fydd yn hyfforddi, yn recriwtio, yn goruchwyllo ac yn cefnogi gwirfoddolwyr? Dylai cefnogi gwirfoddolwyr fod yn rhan benodol o ddisgrifiadau swyddi'r person/au dynodedig a dylai goruchwyliaeth staff gynnwys amser i drafod heriau a llwyddiannau rheoli gwirfoddolwyr.

- Beth fydd gwirfoddolwyr yn ei wneud? Beth fydd yn denu gwirfoddolwyr at y rolau hyn? A allwch greu rolau amrywiol a fydd yn apelio at amrywiaeth eang o bobl? Er enghraifft, meddyliwch am gyfleoedd tymor byr a hirdymor, a rolau cyffredinol, hawdd mynd atynt yn ogystal â rolau mwy penodol a heriol. A allwch apelio at wirfoddolwyr sydd â gwahanol resymau dros wirfoddoli? Ym mha ffordd y gallai gwirfoddolwyr symud ymlaen o'r naill rôl i'r llall wrth iddynt ennill profiad?
- Ym mha ffordd y byddwch yn gwrando ar leisiau, adborth neu gwynion gwirfoddolwyr, ac ym mha ffordd y byddant yn rhan o'r tîm?
- A allwch feddwl am ffyrdd eraill o gynnwys eich gwirfoddolwyr a chofnodi eu hawgrymiadau? Er enghraifft, arolwg adolygu blynyddol, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a diwrnodau cynllunio neu gyflwyno blwch awgrymiadau.
- Ym mha ffordd y byddwch yn gwerthuso llwyddiant eich rhaglen wirfoddoli?
- Ym mha ffordd y byddwch yn cydnabod ac yn gwobrwyo llwyddiannau gwirfoddolwyr?

Mae disgrifiadau o'r rôl neu'r dasg yn helpu i ddiffinio pob rôl. Bydd strwythuro disgrifiad o'r rôl yn y fformat isod hefyd yn amlygu pa weithdrefnau rheoli gwirfoddolwyr y mae angen i chi eu creu.

<i>Teitl</i>	dylai hwn ddisgrifio'n glir yr hyn y bydd y gwirfoddolwr yn ei wneud
<i>Diben</i>	y cyd-destun, y ffordd y bydd y gwirfoddolwr yn cyfrannu at nod cyffredinol ehangach
<i>Gweithgareddau a awgrymir</i>	y prif dasgau a fydd yn cael eu cynnal er mwyn cyflawni'r diben
<i>Graddfa amser</i>	pa mor aml, pa mor rheolaidd, pa ddiwrnodau ac amseroedd, ac os oes angen hyd yr ymrwymiad. (Byddai hyn yn bwysig, er enghraifft, os yw'r rôl yn ymwneud â meithrin perthynas a defnyddiwr agored i niwed)
<i>Lleoliad</i>	lleoliad a hygyrchedd y safle gwirfoddoli (a hyfforddi / goruchwyllo)
<i>Goruchwyliaeth</i>	a oes yna batrwm rheolaidd neu ddisgwyliad o ran goruchwyliaeth. Rhowch enw neu rôl y sawl sy'n gyfrifol am oruchwyllo
<i>Rhinweddau</i>	sgiliau, agweddau, gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol, unrhyw god gwisg neu ofynion o ran ymddygiad

	nodwch a oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg
<i>Buddion</i>	darparu hyfforddiant, ad-dalu costau teithio a threuliau eraill, darparu geirda ar ôl cyfnod penodol o wirfoddoli, cydnabod y gwirfoddoli e.e drwy Wobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm, tystysgrifau diolch, Wythnos Gwirfoddolwyr – tystysgrif gydnabod genedlaethol
<i>Risgiau</i>	amlygu unrhyw wybodaeth allweddol y mae angen i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol ohoni, o'ch asesiad risg o'r rôl hon

Hysbysebwcw gyfleoedd gwirfoddoli ar wefan [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net), naill ai drwy gofrestru ar y wefan fel mudiad a lanlwytho cyfleoedd, yn ddwyieithog, eich hun, neu drwy gysylltu â'ch canolfan wirfoddoli leol a fydd yn eu lanlwytho ar eich rhan.

Gweler [crynodedb o'r proses](#) datblygu strategaeth wirfoddoli.

## **Gwybodaeth bellach:**

Mae'r [safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yn ymdrin â phob agwedd ar gynnwys gwirfoddolwyr ac mae'n werth edrych arni wrth lunio'ch strategaeth wirfoddoli.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, fod polisi ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr yn ei le (Dangosydd 1.1) a ble mae gan y mudiad bolisiau ar gyfer staff, dylai fod gan wirfoddolwyr eu polisi cyfatebol eu hunain neu, pan fo'n briodol, dylid eu cynnwys mewn polisiau cyffredinol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol fod disgrifiad yn cael ei lunio ar gyfer pob rôl (Dangosydd 4.1) a bod asesiad risg i wirfoddolwyr yn cael ei gynnal wrth ddylunio rolau gwirfoddol (Dangosydd 5.1).

Mae llawer o daflenni gwybodaeth WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn berthnasol, yn enwedig:

[4.3 Creu polisi gwirfoddoli](#)

[4.4 Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr](#)

[4.7 Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr](#)

[4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel](#)

[4.13 Treuliau gwirfoddolwyr](#)

[4.26 Rheoli pryderon yn ymwneud â gwirfoddolwyr](#)

Mae [rôl-ddisgrifiad enghreifftiol](#) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Mantell Gwynedd**

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

**Elusen Gofrestredig:** 1068851

**Ffôn:** 01286 672626

[ymholiadau@mantellgwynedd.com](mailto:ymholiadau@mantellgwynedd.com)

**Ffacs:** 01286 678430

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 07/02/2017



Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)